# Cenn@d

MEHEFIN 12 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 172


## Dathlu ffyddlondeb – gwasanaeth cyflwyno medalau Gee



Ddydd Sul, 19 Mai, a hithau'n brynhawn braf o haf, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yng Nghapel Seion, ger Aberystwyth. Croesawyd pawb yn gynnes gan Mrs Ina Tudno Williams, ysgrifenyddes y capel, cyn iddi drosglwyddo'r awenau i'r gweinidog, y Parchg Ddr Watcyn James, a bwysleisiodd gyfraniad gwerthfawr yr ysgol Sul wrth i bobl ymgynnull i astudio'r Gair. Fe'n hatgoffwyd o'r emyn 'Am yr ysgol rad Sabothol' ac mai dyna lle y ceir 'yr addysg orau / Addysg berffaith llyfr y llyfrau'.

Yn y rhannau arweiniol darllenwyd gan ddau o ieuenctid capeli Capel Seion a Phenllwyn, sef Celt (Salm 19) a Tomos (1 Pedr 1:10–12). Cyflwynwyd emyn gan blant Ysgol Sul Capel Seion.

Cafwyd cyfarchiad gan Dr Rhidian Griffiths, Llywydd Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro. Clywsom ganddo ychydig am Thomas Gee, y cyhoeddwr llyfrau ac fel y bu iddo gyhoeddi'r llyfr emynau cydenwadol Cymraeg cyntaf.

Y Parchedig Aled Davies, Cyfarwyddwr y Cyngor Ysgolion Sul, a roddodd beth o hanes y medalau Gee a gyflwynir yn flynyddol er cof am Mr a Mrs Thomas Gee, Dinbych, i gydnabod ffyddlondeb i'r ysgol Sul. Cafwyd esiampl ganddo o'r modd y gall y seiliau cadarn a osodir yn yr ysgol Sul ddylanwadu ar eich bywyd a'ch gwaith.

Rhoddwyd y fraint o gyflwyno'r medalau i'r Parchedig Aled Davies a'r Parchedig Ddr Watcyn James. Yna, cafwyd cyfarchiad gan Mr Alwyn Hughes, Cadeirydd Gofalaeth y Garn.

Braf oedd gweld y capel yn gyfforddus lawn, gyda theulu a ffrindiau'r saith a dderbyniodd fedal Gee wedi dod o bell ac agos.

Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd cyfle i sgwrsio dros gwpanaid o de a lluniaeth.

*Delyth Davies*

Gwelir yn y llun (o'r chwith i'r dde) y saith a dderbyniodd y fedal yn yr oedfa, ynghyd â'r Parch. Ddr Watcyn James a'r Parch. Aled Davies

Cyfrannodd **Magdalen** (Mags) **Davies** yn llawn dros y blynyddoedd i fywyd Capel Seion a'r ysgol Sul lle mae'n aelod ffyddlon. Bu'n athrawes yno ac y mae hyd heddiw yn cyfrannu'n llawn i drafodaethau dosbarth yr oedolion.

Treuliodd Magdalen ei hoes yng nghysgod enwau Beiblaidd. O'i geni ym Methania treuliodd ran helaethaf ei hoes yn ardaloedd Moreia a Chapel Seion! Bu'n gyrru ambiwlans am 15 mlynedd cyn ymroi i fod yn nyrs am weddill ei gyrfa. Bu'n aelod o barti canu'r capel ac mae'n ymddiddori mewn gwahanol agweddau ar ddiwylliant y fro.

O ardal Tal-y-bont yn wreiddiol y daw **Eirlys Jones**, ond bu'n mynychu Ysgol Sul Capel Seion ers 1965 – pan nad oedd galwadau gwaith neu heriau bywyd yn rhwystro hynny. Ni fyddwch yn siarad ag Eirlys am yr ysgol Sul heb iddi gyfeirio at ei mam-gu ('mam fach') a'i dylanwad arhosol arni. Bydd yn sôn sut y manteisiodd ei mam-gu ar yr addysg a gaed yn ysgol Sul a'r cyfleoedd addysgol a ddaeth i'w rhan mewn cyfnod pan oedd cyfleoedd addysg i ferched yn brin iawn. O'r gwerthfawrogiad hwnnw o gwmnïaeth glòs yr ysgol Sul y tyfodd ymlyniad Eirlys hithau i'r ysgol Sul.

Mae **John Gwynn Jones** yntau'n aelod ffyddlon a gweithgar o fywyd Capel Seion ac ni fu unrhyw adeg nad oedd yn ymwneud â'r ysgol Sul. Bu yn ei dro yn athro ac yn arolygydd. Mae ei drylwyredd a'i ofal wrth baratoi yn nodwedd o'i arweiniad i'r dosbarth. Ef gyflwynodd hanes diweddar yr achos yng Nghapel Seion pan ddathlwyd 200 mlynedd ers sefydlu'r achos ym mro'r Paith.


*(parhad ar y dudalen nesaf)*



Cenhadu ac Arloesi – cynhadledd y Fforwm Ffydd **Tudalen 4**

Clwb Sul Capel y Morfa, Aberystwyth **Tudalen 5**

Sasiwn Genhadol y De (EBC) **Tudalen 8**

### *Dathlu ffyddlondeb – gwasanaeth cyflwyno medalau Gee*

*(parhad o dudalen 1)*

Er bod ardal ei fagwraeth ym Mlaenpennal a Phen-uwch yn annwyl iddo, cartrefu a wnaeth, wedi priodi, yng Nghapel Seion. Fel llyfrgellydd teithiol yn y sir, mae ei adnabyddiaeth o'i phriffyrdd a'i lonydd culion yn rhyfeddol! Bu'n darlithio mewn cymdeithasau lleol ledled Ceredigion am hanes a diwylliant y fro.

Ni fu adeg nad oedd **Aeronwy Lewis** yn mynychu'r ysgol Sul yn ffyddlon. Wedi dechrau ar ei thaith yn Aberffrwd, Cwm Rheidol, symudodd Aeronwy i Benllwyn. Ac er iddi dreulio ychydig amser ym metropolis Aberystwyth, dychwelyd i harddwch Penllwyn a wnaeth. Bu Aeronwy yn aelod, yn gyd-drefnydd yr ysgol Sul, yn drysorydd yr ysgol Sul ac yn athrawes weithgar ym Mhenllwyn rhwng 1956 a 2022. Mae'n aelod ffyddlon yn y capel a chyfrannodd at redeg Clwb Hwyl Hwyr yn Ysgol Penllwyn am flynyddoedd. Bu'n gweithio yng Nghanolfan y Fridfa Blanhigion Gymreig ac yn un o brif sylfaenwyr y Cylch Meithrin. Cyfrannodd hefyd i ddiwylliant ehangach y fro mewn partïon gwahanol ac i ddramâu byr yn y pentref.

Mae **Heulwen Lewis** wedi mynychu'r ysgol Sul ym Mhenllwyn ar hyd ei hoes, lle bu'n Arolygydd yr ysgol Sul ac yn athrawes am dros 50 mlynedd. Hi hefyd yw Ysgrifennydd Capel Penllwyn. Bu'n selog ei chefnogaeth i'r Gymanfa Ganu ac i Bwyllgor Plant ac Ieuenctid yr Henaduriaeth. Cyfrannodd i Glwb Hwyl Hwyr yr ysgol ac mae'n parhau i fod yn aelod o dîm Agor y Llyfr. Yn ogystal â magu ei theulu, bu Heulwen yn gweithio fel ysgrifenyddes yn Ysbyty Bronglais, yn cynorthwyo yn ysgol Penllwyn a Phenweddig, ac yna yn adran Addysg y Cyngor Sir. Bu'n aelod ffyddlon o gôr Penrhyn-coch ac o gôr yr Eisteddfod Genedlaethol yn Aberystwyth. Mae ei gofal dros eraill a'i chymwynasgarwch yn adnabyddus i bawb a ddaeth i gysylltiad â hi.

Gwasanaethodd **Ina Tudno Williams** yr ysgol Sul yng Nghapel Seion am dros 40 mlynedd a hynny wedi iddi fod yn athrawes yn Seilo, Aberystwyth, am 10 mlynedd. Er iddi dreulio'i phlentyndod a'i hieuenctid yn ardaloedd Llangybi, Llanwrda a Llandybïe, ymgartrefodd yng Ngheredigion gan osod ei gwreiddiau'n ddwfn yn ardal y Paith. Fel ysgrifennydd y capel a threfnydd pregethwyr y Sul, fel un sydd wedi cyfrannu'n ehangach i Bwyllgor Plant ac Ieuenctid yr Henaduriaeth ac i Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De, mae wedi cyfrannu'n helaeth i fywyd Cristnogol y fro. Treuliodd Ina Tudno Williams ei gyrfa fel athrawes fro yng Ngheredigion ac yna fel darlithydd yn yr Adran Addysg yn y Brifysgol yn Aberystwyth. Gwasanaethodd hefyd fel Ynad Heddwch. Cyfrannodd yn helaeth i gorau, partïon ac i gymdeithasau diwylliannol lleol.

Mae gan y **Parch. Ddr John Tudno Williams** gysylltiad ag ysgol Sul Seion ers dros 40 mlynedd. Nid am ei gyfraniad i Ysgol Sul Capel Seion yn unig yr enwebwyd y Parchg Ddr John Tudno Williams. Yr oeddem am ei anrhydeddu am ei gyfraniad i ysgolion Sul ledled Cymru drwy ei esboniadau Beiblaidd, ei gyfraniad i'r dasg o gyfieithu'r Beibl Cymraeg Newydd a ddefnyddir gan eglwysi Cymru i gyd, ei gyfraniad i wybodaeth Feiblaidd drwy ei erthyglau niferus, a'i gyfraniad i addysg ddiwinyddol yng Nghymru.

Treuliodd y Parch. Ddr John Tudno Williams ei blentyndod a'i ieuenctid yn Lerpwl a Llundain. Wedi graddio yn Rhydychen dychwelodd i Gymru ac i Aberystwyth. Fe'i hordeiniwyd dros 60 mlynedd yn ôl yn 1963 a'i sefydlu'n weinidog yn y Borth lle cafodd gyfle, gydag eraill, i sefydlu Ysgol Sul Undebol, oedd gyda'r cyntaf i gael ei sefydlu yng Nghymru. Dyfarnwyd gradd Doethur iddo am ei astudiaeth o gefndir Iddewig Efengyl Ioan. Yn 1966 dechreuodd ddysgu yn y Coleg Diwinyddol, coleg y daeth yn Brifathro arno rhwng 1998 a 2003. Gwasanaethodd Eglwys Bresbyteraidd Cymru ar bob lefel o'i threfniadaeth, gan ddod yn Llywydd y Gymdeithasfa yn y De, yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol a chael ei ethol yn Llywydd Cyngor Eglwysi Cymru a Lloegr.

Llawenydd i bawb oedd yn y gynulleidfa oedd cael mynegi ein gwerthfawrogiad am gyfraniad pob un ohonynt yn hybu gwaith yr ysgol Sul yn y fro.

## Gwylnos dros heddwch ar faes Eisteddfod yr Urdd – ieuenctid Cymru yn apelio am gadoediad yn Gaza

Nos Wener, 31 Mai, cynhaliwyd gwylnos ar faes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Maldwyn i wrthdystio yn erbyn ymosodiadau Israel ar ddinas Rafah yn Gaza. Hon oedd yr wylnos gyntaf i gael ei threfnu gan yr Urdd ar faes yr Eisteddfod, a hynny yn dilyn galwad gan nifer o ieuenctid o fewn yr Urdd.

Ddeuddydd ynghynt, roedd yr Urdd wedi apelio ar wleidyddion i bwyso am gadoediad yn y rhyfel. Wrth siarad ar lwyfan y brifwyl, ac yntau'n llywyddu'r prif seremonïau eleni, dywedodd y bardd ifanc Iestyn Tyne: 'Dydy terfynu bywydau miloedd ar filoedd o blant ddim yn ymateb rhesymol i unrhyw weithred dan unrhyw amgylchiadau.' Ychwanegodd fod yr Urdd, yn 'galw eto – galw'n gliriach, galw'n uwch am gadoediad llwyr yn Gaza'.

Dywedodd Siân Lewis, Prif Weithredwr y mudiad, hefyd ar faes Eisteddfod yr Urdd ei bod yn 'anodd anwybyddu erchylltra digwyddiadau Rafah yr wythnos hon'.

Daeth cynulleidfa o tua 200 ynghyd i'r wylnos, a chafwyd cyflwyniadau grymus gan nifer o siaradwyr ifanc. Llywyddwyd y cyfarfod gan Llio Maddocks, trefnydd yr ŵyl, a braf oedd gweld swyddogion yr Urdd hefyd yn bresennol. Roedd Cadi Glwys wedi paratoi cerdd ar gyfer yr achlysur, a braf yw cael cyhoeddi honno yn *Cenn@d*.

Diolch am yr hanes cyfoethog sydd gan yr Urdd o ymgyrchu tuag at greu byd heddychlon, ac am y neges heddwch ac ewyllys da sy'n cael ei rhannu i bob rhan o'r byd. Braint oedd cael bod yn yr wylnos yng nghwmni cynifer o ieuenctid Cymru.

*Aled Davies*



tap. hoffi. sgrôl.
mae skinny jeans yn ôl!
tap. hoffi. snap.
dileu Palesteina o'r map.
tap. hoffi. clic.
sbia, cath yn chwarae tric!
tap. hoffi. ping.
ydy Gaza dal yn thing?

oeda.
sobra o sbri y sgrôl, a gwranda.
taflegrau'n peri dagrau.
gobaith yn ceulo'n y craciau.
ŵyn di-fugail, clyw di eu cri?
deugain mil... a dal i gyfri.

**cadi glwys**

# Llythyr at Dduw ar Sul y Tadau, 16 Mehefin 2024

Ein Tad Nefol –
Gair byr ar Sul y Tadau.

Heddiw, fe gofiaf dy fod wedi fy nysgu a'm harwain trwy gydol fy mywyd.
Rwyt wedi fy sicrhau dro ar ôl tro dy fod yn fy ngharu.
Rwyt wedi addo dro ar ôl tro na fyddi di fyth yn fy ngadael.

Fe wnest ti hyd yn oed fynd mor bell â rhoi dy Fab i farw trosof oherwydd mawredd a dyfnder dy gariad tuag ataf.

A fedra i ofyn unrhyw beth yn fwy?
Wrth gwrs y medraf, ac rwyf bob amser yn gwneud.

Fel unrhyw dad da, gwna Di fel y gweli di'n dda,
hyd yn oed os yw hynny'n golygu na fydda i'n derbyn yr hyn a ofynnaf amdano.

Gobeithio ryw ddydd y byddaf chwarter y rhiant yr wyt Ti wedi bod i fi.
Os bydd angen unrhyw beth ar fy mhlant,
gobeithio y byddaf yno iddynt fel yr wyt Ti wedi bod yno i fi.

Pan fydd gan fy mhlant gwestiynau,
gobeithio y byddaf yn glust iddynt fel yr wyt Ti wedi bod yn glust i mi.
Pan fyddant yn profi llawenydd neu siom,
gobeithio y byddaf yn medru bod yno ar eu cyfer fel yr wyt Ti bob amser yno i mi.

Felly, rwy'n anfon y gair hwn atat i ddiolch i Ti am fod yn Dad nefol i mi,
ac i ddweud cymaint o fraint a bendith yw hi i mi fod yn blentyn i Ti.

Hefyd, hoffwn ddiolch i Ti am roi dy holl sylw i mi pan fyddaf yn siarad â Thi,
fel petawn i'n unig blentyn i Ti, er bod gennyt lawer iawn o blant.

Ein Tad, Sul y Tadau Hapus.
A diolch am bopeth.

**Gweddi dros dadau**

*Gweddïwn*
O Dad Sanctaidd, gweddïwn dros dadau yn ein gwlad,
ac ymhob gwlad.
Fel yr wyt Ti yn dyner tuag at dy blant,
rho hefyd i dadau gryfder a gras
fel y gallant fod yn ymgorfforiad o dy gariad i'w plant.
A bydded i Dduw hollalluog eich bendithio,
Dad, Mab ac Ysbryd Glân.
Amen.

(*Y Tad Simon Brands ar raglen* Songs of Praise)

(O Bapur y Priordy, Mehefin 2024)

# O Gefn Gwlad

## Y Drain a'r Gwyddfid

Am ddewis dameg i'w thrafod yr oeddwn un Sul yn ein Cylch yn Nghefnddwysarn, gan gofio i Grist lefaru o leia ddeg ar hugain ohonyn nhw, yn ôl cofnod yr Efengylau, a rhai awduron yn awgrymu bod y nifer yn nes i'r hanner cant.

Beth bynnag am hynny, mi drois at gyfrol ardderchog Elfed ap Nefydd, *Dehongli'r Damhegion*, ac yn niwedd yr adran ar ddameg y Samariad Trugarog dod ar draws dyfyniad yr oeddwn wedi ei sgriblo ar ddiwedd y bennod rywbryd, dyfyniad o nofel enwog Emily Brontë, sef *Wuthering Heights*. A dyma fo, yn cyfeirio at berthynas Catherine, prif gymeriad y nofel, efo teulu'r un oedd mewn cariad efo hi: 'Nid y ddraenen yn plygu i'r gwyddfid, ond y gwyddfid yn cofleidio'r ddraenen'.*

Y mae draenen neu ddrain yn symbol o bopeth sy'n atgas mewn bywyd, mewn pobol yn arbennig. Ac i ni sy'n ystyried ein hunain yn bobol normal, onest, ddoeth a chytbwys, y maent yn broblem. Mi wyddom am rai felly; fe gawn eu hanes ar y cyfryngau, rhai y byddai'n amhosib i ni eu caru a'u cofleidio – arweinyddion rhai o wledydd y byd, neu ladron a threiswyr a llofruddion.

Ond mynegi'r eithaf yw hyn. Beth am y rhai yn ein cymdeithas, efallai, y mae'n anodd iawn closio atyn nhw – rhai gwrthnysig, ambell ddyn sy'n hen grinc efallai, ambell ferch anghynnes? Un felly oedd Catherine yn nofel Emily Brontë. Hen gnawes snobyddlyd go iawn oedd hi, yn ceisio'i gorau i reoli bywydau pobol eraill a bywyd yr un oedd mewn cariad efo hi, sef Linton Heathcliff.

Nid sant mohono ef o bell ffordd chwaith, ond fe geisiodd ei deulu orau gallen nhw gofleidio Catherine, a dyna lle daw'r dyfyniad. Catherine oedd y ddraenen a theulu Lintons oedd y gwyddfid.

Symbol o gariad yw'r gwyddfid, ac mae ei enw Saesneg yn cyfleu hynny – yn well na'r Gymraeg – *honeysuckle*. Pan oeddem yn blant, byddem yn torri rhan o'r blodyn ac yn sugno'r melyster ohono. A dyna darddiad yr enw.

Mae'n weddol amlwg pam i mi nodi'r dyfyniad hwn ar ddiwedd y bennod yn nghyfrol Elfed ap Nefydd sy'n trafod dameg y Samariad Trugarog. Os oedd pobol atgas yn bod yng ngolwg y Samariaid, yna'r Idddewon oedd y rheini. Doedd dim cyfathrach rhyngddyn nhw, dwy genedl yr oedd eu dinasyddion yn casáu ei gilydd. Ond dinasyddion o'r ddwy genedl hon ddaeth at ei gilydd pan ymosodwyd ar yr Iddew yn y ddameg, ac y daeth Samariad o bawb, fel y gwyddfid, i gydio yn y ddraenen, i'w achub a thrin ei glwyfau.

Byddai Crist wedi gwneud pethau'n haws i bawb tase fo wedi darlunio'r ddau yn perthyn i'r un genedl, ond nid un i wneud pethau'n hawdd pan oedd ar y ddaear oedd o. Na, o ganlyniad, nid crefydd hawdd yw Cristnogaeth, er ein bod yn ceisio gwneud pethau mor hawdd i ni ein hunain ag y gallwn. Y fi yn sicr, a dwi ddim yn meddwl mod i'n wahanol i'r rhan fwya o bobol. Oes, y mae yna rai na allaf feddwl am eu cofleidio'n gorfforol nac ymwneud â nhw mewn unrhyw ffordd. Ond mi allaf gyfrannu'n ariannol, ac rwy'n ceisio gwneud hynny i gymaint o elusennau ag y gallaf. Falle mai twyllo fy hun a wnaf, a bod Crist yn gofyn llawer mwy gennyf, ond rwy'n perswadio fy hun fod hynny yn gydymdeimlo, ac yn rhyw fath o gofleidio hefyd.

* Not the thorn bending to the honeysuckle, but the honeysuckle embracing the thorn.

*Elfyn Pritchard*

# Cenhadu ac Arloesi – cynhadledd y Fforwm Ffydd



Cynhaliwyd cynhadledd flynyddol y Fforwm Ffydd yn Seilo, Eglwys Unedig Llandudno, ddydd Mawrth, 14 Mai. Thema'r gynhadledd eleni oedd 'Cenhadu ac Arloesi'. Fe'n harweiniwyd mewn defosiwn byr yn y bore gan y Parchedig Ddr Elwyn Richards ac yn y prynhawn gan y Parchedig Aled Lewis Evans, ac fe lywyddwyd y gynhadledd yn ei ddull nodweddiadol gartrefol gan y Parchedig Eric Jones.

Cafwyd darlith gyfoethog gan y Parchedig Glyn Tudwal Jones ar y testun 'Maen ar Faen', cyfeiriad at ymateb Iesu wrth i'r disgyblion ryfeddu at adeiladwaith wych y deml: 'Ni adewir yma faen ar faen; ni bydd yr un heb ei fwrw i lawr' (Marc 13: 2). Cyfeiriodd y darlithydd at y sefyllfa argyfyngus sy'n wynebu ein capeli a'n heglwysi yng Nghymru heddiw. Yn y cyfrifiad a gynhaliwyd yn 2021 dim ond ychydig dros 40% o'r boblogaeth oedd yn eu hystyried eu hunain yn Gristnogion (i lawr o 57% ddeg mlynedd ynghynt), ac fe gyfyd y cwestiwn: am ba hyd y medrwn ddal y fath ddirywiad? Cymhlethwyd y sefyllfa gan y pandemig: diflannodd nifer o ysgolion Sul trwy Gymru benbaladr, ac araf oedd cynulleidfaoedd i ddod yn ôl i'r oedfa wedi'r ddau gyfnod clo. Ymddengys bod ein capeli'n dal i ddioddef o'r 'cofid hir ysbrydol'.

Er tegwch, rhaid oedd cydnabod bod ein heglwysi wedi bod yn hynod ddyfeisgar yn addasu i'r her gwbl newydd a dieithr a ddaeth i'w rhan, a daeth newidiadau sylweddol i'n patrwm o addoli a chrefydda. Daeth ymadroddion newydd yn rhan o'n geirfa – 'pregethau ar Zoom', 'gwasanaeth hybrid', ac yn y blaen. I rai, roedd y pandemig yn gyfle i fyfyrio ar yr hyn sy'n bwysig mewn bywyd. Daethpwyd i werthfawrogi tawelwch annisgwyl y byd o'n cwmpas – yr awyr heb lygredd trafnidiaeth – yn ogystal â sylweddoli pwysigrwydd ein cyd-ddibyniaeth ar ein gilydd. Daethpwyd hefyd i ailystyried beth oedd bod yn Eglwys yn yr unfed ganrif ar hugain, oherwydd daeth yr eglwys yn llawer mwy na mangre addoli. Daeth llawer o'n heglwysi'n ganolfannau cymunedol, yn croesawu cylchoedd meithrin, yn cynnal banciau bwyd, yn darparu mannau cynnes, a lloches ar gyfer y digartref.



Y ddau ddarlithydd – Corey Hampton a Glyn Tudwal Jones

Cyfeiriodd y darlithydd at erthygl ddiweddar gan Rosa Hunt yn *Y Traethodydd,* lle cyflwynwyd y syniad o 'genhadaeth' fel 'cyfieithiad' – cyfieithu'r Efengyl i'n hiaith a'n diwylliant ni. Rhaid oedd i'r eglwys bellach wynebu her y diwylliant yr ydym yn byw ynddo, a nodwyd tair o nodweddion y diwylliant hwnnw. Yn gyntaf, rydym bellach yn byw mewn oes 'ôl-enwadol' pan nad yw'r gwahaniaethau enwadol traddodiadol mor bwysig ag y buont. Yn ail, rydym yn byw mewn oes 'ôl-ffydd' gan fod llawer o blant bellach heb fod yn gyfarwydd o gwbl â'r Beibl. Yn drydydd, rydym yn byw mewn oes 'ôl-fodern', pan fo llawer yn ymwrthod ag unrhyw naratif sy'n gosod strwythur pendant i fywyd, a phan welir bygythiad i'r hyn a ystyrid yn 'wirionedd'.

Diweddodd y darlithydd ar nodyn cadarnhaol: hyd yn oed os oedd y meini traddodiadol yn cael eu dymchwel, roedd yna sylfaen gadarn y gellid adeiladu arni, ac nid oedd rhaid dychwelyd at yr hyn a fu. Yn wir, peth da oedd bod yr eglwysi heddiw yn symud ymlaen i arbrofi gyda dulliau newydd a gwahanol ac yn adeiladu o'r newydd 'maen ar faen'.

Americanwr sydd bellach yn siarad Cymraeg yn rhugl yw Corey Hampton, ac y mae'n ymgeisydd am y weinidogaeth gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Y mae, ar hyn o bryd, yn dilyn cwrs doethuriaeth ym Mhrifysgol Aberdeen ac yn cael ei noddi gan CWM. Teitl ei ddarlith oedd 'Cenhadaeth mewn Oes Seciwlar: y tu hwnt i Fewnfodaeth'. Dechreuodd trwy rannu ychydig o'i hanes personol. Cafodd ei apwyntio saith mlynedd yn ôl fel cynorthwyydd gweinidogaethol gydag EBC, ac i un a oedd wedi tyfu i fyny yn y 'Bible Belt' yn yr Unol Daleithiau roedd ymweld â chapeli yng Nghymru yn gryn sioc. Roedd wedi disgwyl gweld cynulleidfaoedd byrlymus wedi eu tanio gan ffydd yn Iesu, ond yr hyn welodd oedd cynulleidfaoedd yn crebachu ac eglwysi â nifer fechan o aelodau, a nifer llai fyth yn mynychu'r gwasanaethau. Poenus oedd gorfod cydnabod bod yr eglwysi yng Nghymru mewn argyfwng, a gan bwyso'n drwm ar gyfrol Charles Taylor, *A Secular Age*, gellid ei ddisgrifio fel 'argyfwng mewnfodaeth' ('*crisis of immanence*'). Pwyslais y gyfrol yw bod Duw yn Dduw cenhadol a hanfod yr Eglwys yw cyfranogi yng nghenhadaeth Duw. Nid opsiwn ychwanegol yw cenhadaeth i'r Eglwys; yn hytrach, dyna sy'n greiddiol i'w bodolaeth, a rhaid oedd ystyried oblygiadau'r ddiwinyddiaeth hon wrth geisio ymateb mewn ffordd bendant i'r sefyllfa gyfoes.

Yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yr oedd y ffydd Gristnogol a'r diwylliant Cymraeg yn anochel glwm wrth ei gilydd. Erbyn heddiw, mae crefydd i raddau helaeth wedi diflannu i'r ymylon, a rhywbeth yn perthyn i'r byd preifat, personol ydyw bellach. Ond er ein bod yn byw mewn oes seciwlar mae lle i gredu bod nifer yn dal i ddyheu am brofiad o'r trosgynnol, fel y dengys y diddordeb cynyddol mewn ysbrydolrwydd, myfyrio a mynd ar bererindod. Y tristwch yw mai'r capel yn aml yw'r lle olaf y mae pobl yn meddwl am fynd iddo i gael profiad o'r trosgynnol. Mewn darlith eang a chynhwysfawr, cafodd y gynulleidfa eu harwain i fyfyrio ar ddiwinyddiaeth Barth a Bonhoeffer, a chawsom gipolwg ar rai o ganlyniadau ymchwil Corey ei hun.

Yng nghyfarfod y prynhawn cafwyd trafodaeth frwd ar y ddwy ddarlith, a gellir gwrando ar ddarlith Glyn trwy ddilyn y ddolen https://youtu.be/H3Upmw_r6To ac ar ddarlith Corey trwy ddilyn y ddolen https://youtu.be/N6xEKgRXuZo

*Eryl Wynn Davies*

# Pryderon am Dirlithiad Difrifol ym Mizoram


Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn cydsefyll gyda thalaith Mizoram yn dilyn effeithio'r dalaith fechan hon yng Ngogledd-ddwyrain India gan dirlithriadau difrifol.

Yn dilyn glaw annaturiol o drwm, cafodd Aizawl, prifddinas talaith fechan fynyddig Mizoram yng Ngogledd-ddwyrain India, gyda phoblogaeth oddeutu 300,000, ei tharo gan gyfres o dirlithriadau yn ystod yr wythnos diwethaf. Wrth i'r ymgais achub barhau, nodwyd gan yr awdurdodau yno bod 30 o bobl wedi colli eu bywydau hyd yma. Hawliodd un o'r tirlithriadau hynny fywydau o leiaf 16 o bobl.



Mae timau achub y llywodraeth, gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr lleol a'r mudiad CYMA (Central Young Mizo Association), yn parhau â'u hymdrechion i chwilio.

Pery cysylltiad agos rhwng Cymru a Mizoram, a hynny wedi bron i 130 mlynedd o hanes. Cyrhaeddodd y cenhadwr cyntaf o Gymru, y Parch D E Jones o Landderfel, ger y Bala, Aizawl ym mis Awst 1897 i rannu'r Newyddion Da am Iesu Grist mewn cenhadaeth a fyddai'n parhau am 70 mlynedd hyd 1967. Aeth ugeiniau o Gristnogion o Gymru i dalaith Mizoram fel rhan o genhadaeth ehangach ymhlith taleithiau Gogledd-ddwyrain India a rhannau o'r hyn a adnabyddir fel Bangladesh heddiw. Gellir dweud mai ym Mizoram y bu'r trawsnewidiad llwyraf a chyflymaf wrth i drigolion y dalaith bron i gyd droi at y ffydd Gristnogol mewn cyfnod o 50



mlynedd. Er ei bod ymhlith y taleithiau tlotaf yn India, mae'r dalaith yn parhau i fod ymhlith y rhai â'r cyraeddiadau llythrennedd ac academaidd uchaf yn India gyfan.

Rydym fel Eglwys yn parhau i fod mewn cyswllt agos gyda Synod Mizoram o Eglwys Bresbyteraidd yr India. Cydymdeimlwn â holl drigolion y dalaith, ond yn arbennig y rhai hynny sy'n galaru am anwyliaid. Byddwn fel Eglwys, ac fel unigolion yn eu dyrchafu yn ein gweddïau.

## Taith fawr … Cancer Research UK

Taith fawr Eglwys Bresbyteraidd Cymru: #TeamBev ar gyfer Cancer Research UK

Ar 15 Mehefin, bydd criw ohonom fel staff swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn cymryd rhan mewn heic hanner marathon a marathon llawn ar hyd Bannau Brycheiniog i godi arian ar gyfer Cancer Research UK.

Mae'r daith gerdded hon hefyd er cof annwyl am Bev, diweddar wraig Neil Poulton, a fu farw o gancr ychydig flynyddoedd yn ôl.

Os hoffech gyfrannu at ein hymdrech elusennol i gefnogi Cancer Research UK, ewch i'n tudalen JustGiving:

https://fundraise.cancerresearchuk.org/team/team-bev-6


https://www.ebcpcw.cymru/cy/latest_news/taith-fawr-eglwys-bresbyteraidd-cymru-teambev-ar-gyfer-cancer-research-uk/

Fel arall, sganiwch y QR i ymweld â'n tudalen JustGiving.



# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




### Pennod 28
### Ble mae Myanmar?

**Darlleniad: Mathew 7:7–12**

'Pa beth bynnag y dymunwch i eraill ei wneud i chwi, gwnewch chwithau felly iddynt hwy; hyn yw'r Gyfraith a'r proffwydi.' (adn. 12)

**Gweddi**

Nefol Dad, ceisiwn agosáu atat o'r newydd gan ofyn am dy arweiniad a'th fendith heddiw. Trugarha wrthym, a ninnau yn ein pryderon personol a heb roi digon o amser i feddwl am drueiniaid tlawd ein byd. Nodwyd 80 mlynedd ers D-Day gyda lluoedd arfog cynifer o wledydd yn cychwyn ar yr her o ryddhau gwledydd Ewrop o afael Hitler. Gwyddom fod dros ugain rhyfel yn dal yn digwydd ar draws y byd nawr, a'n gweddi yw 'am heddwch dros wyneb daear lawr'. Amen.

**Cyflwyniad**

Ar 6 Mehefin, darlledwyd cyfarfodydd y cofio a'r diolch am ddewrder y miloedd ar filoedd o filwyr a aeth i'r gad gan fod yn ymwybodol na fyddai pawb yn dychwelyd adref yn fyw. Wrth gydnabod arswyd ac erchyllterau'r ddau ryfel mawr a fu ar dir Ewrop yn hanner cyntaf y ganrif ddiwethaf, cofiwn fod ugain gwlad a mwy yn wynebu rhyfeloedd heddiw. Rhyfeloedd cartref yw'r mwyafrif ohonynt, gyda llawer ar gyfandir yr Affrig. Byddwn yn parhau i arswydo wrth weld beth sydd wedi digwydd ar dir Wcráin ac ar dir Gaza yn ystod y cyfnod diweddar. Dywed Iesu mai camgymeriad yw barnu pobl eraill, heb gydnabod yn gyntaf ein beiau ein hunain. 'Heb ei fai, heb ei eni' medd y ddihareb, ond mae'n anodd peidio arswydo at erchyllterau'r hyn sy'n digwydd yn Myanmar nawr, a'r rheibio anwar sydd ar droed yn Sudan a gwledydd eraill ar gyfandir yr Affrig.

**Myfyrdod**

Ciliodd enw Myanmar o sylw'r wasg a'r cyfryngau torfol dros y pum mlynedd diwethaf. Prin y bydd gan lawer ohonom unrhyw syniad o'i leoliad, mae'n siŵr! O'r braidd ein bod yn sylwi ar y trasedïau sy'n digwydd yno, ac mae'r cyfan yn fwy nag y gallwn ei amgyffred. Mae rhyfel cartref yn Myanmar – gwlad ag India a Phacistan i'r gorllewin, China i'r dwyrain, a Laos a Thailand i'r de – ers degawdau. Bydd gweddillion yr NUG (National Unity Government), sef uned filwrol yn cynrychioli'r cyn-lywodraeth genedlaethol, yn chwilio am gefnogwyr Byddin Arakha (AA) er mwyn dial arnynt. Beth bynnag yw'r rheolau mewn rhyfel, prin fod y carfanau arfog hyn yn ystyried beth sy'n digwydd. Os ydych yn medru chwilio am wefannau newyddion ar eich cyfrifiaduron a holi am rhyfeloedd fel yr un sy'n digwydd yn Myanmar neu Dde Sudan, Chad, Mali, Congo, Afhganistan, Yemen, ac enwi ond ychydig, yna plis gwnewch. Bydd gofyn darllen hanes pob gwlad ar ôl sylwi ar ei hystadegau a'i dioddefaint.

Bron yn ddieithriad, gwahaniaethau hiliol o fewn gwladwriaeth a hawliau tir ac eiddo sy'n tanio'r brwydrau hyn. Er nad yw ystadegau'r marwolaethau na'r difrod i'w cymharu â'r hyn sy'n digwydd yn Gaza ac Wcráin heddiw, yr un yw gradd y barbareiddiwch anwaraidd. Gwae ni rhag ymbellhau oddi wrth geisio deall beth sy'n digwydd, ac estyn gweddi yn eiriol drostynt.

Mae cân Dafydd Iwan yn dweud, 'Rwy'n frawd i ti a thithau'n frawd i minnau', gan droi'r dieithryn yn berthynas, a'r gelyn yn gyfaill.

**Gweddi**

Diolchwn am bob asiantaeth sy'n ceisio ailadeiladu cymunedau yn dilyn rhyfeloedd ac am bob corff sy'n cynnig cefnogaeth i gynorthwyo'r cyn-filwyr i ddygymod â'r profiadau a gawsant. Cofiwn yn arbennig am heriau'r Cenhedloedd Unedig i blethu'r cenhedloedd oll i fyw'n gytûn a rhag-weld y peryglon pan fydd ysgarmesoedd lleol yn troi'n fflamau arswydus ac erchyll ledled y byd. Amen.

**Cwestiynau i'w hystyried**

1. Pwy oedd y 'barnwyr' a'r 'rhagrithwyr' y mae Iesu'n cyfeirio atynt yn y darlleniad?
2. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng 'barnu eraill', a mynegi barn/safbwynt am eraill?
3. Pam y dylem ymddiddori yn nigwyddiadau trasig y byd?
4. Beth sy'n symbylu trais yn y byd, a chasineb ynom ni?
5. Bydd sawl etholiad yn cael ei gynnal ar draws y byd eleni. Beth fyddai eich cwestiwn mwyaf treiddgar chi i'r ymgeiswyr yn yr etholiadau hyn, neu a fyddwn yn ymbalfalu â'r materion sy'n berthnasol i'n cymunedau ein hunain yn unig?

**EGLWYS FEDYDDIEDIG SARDIS, RESOLFEN**

**TAITH GENHADOL**

dan nawdd yr eglwys (Saesneg) uchod
i weithio gyda phlant ac oedolion
mewn eglwysi ac ysgolion
yn

BRASIL

29 Gorffennaf–21 Awst 2024



☞Os ydych am ymuno â ni
cysylltwch â Peter Davies ar
fs111@btinternet.com

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 16 Mehefin – Taith Gerddorol**

Ymunwch â Lisa Gwilym ar Ynys Môn i fwynhau gwledd o emynau a pherfformiadau, wrth i ni ddathlu ein traddodiad disglair o ganu mawl. Ymhlith yr artistiaid fydd y soprano boblogaidd Ellen Williams.

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 16 Mehefin, am 7:30yb a 16:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Eileen Davies

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 16 Mehefin, am 12yp**

Oedfa dan ofal Ifan a Catrin Roberts, Caerdydd

# 'Gorau chwarae cyd chwarae'

## Neges y Parch. Euron Hughes yn oedfa Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, yng nghapel Pendref, Llanfyllin, bore Sul, 26 Mai

Wyddoch chi be … mae hi braidd yn siomedig nad yw tîm pêl-droed dynion Cymru yn chwarae yn rowndiau terfynol yr Ewros eleni. Roeddwn i a'r het wedi edrych ymlaen at gael mynd i'r Almaen i'w gwylio – ac efallai ail-greu'r haf gogoneddus yna a gawsom yn Ffrainc ryw wyth mlynedd yn ôl.

Ond dyna fo, fel pob cystadleuaeth, does neb yn llwyddiannus bob un tro.

Ond y peth sy'n apelgar am arfbais Cymdeithas Bêl-droed Cymru i mi yw 'Gorau chwarae cyd chwarae' – y syniad ein bod ni'n gallu cyflawni llawer mwy o bethau cadarnhaol pan fyddwn yn gweithio efo'n gilydd.

Nid nepell, ar gaeau Mathrafal, mae maes yr eisteddfod yn disgwyl yn eiddgar am y prynhawn yma … am y sioe gynradd a'r sioe ieuenctid, ac wedyn, o yfory ymlaen i groesawu cystadleuwyr, cefnogwyr ac ymwelwyr.

A'r gwirionedd yw: tu ôl i adeiladu'r maes, tu ôl i drefn digwyddiadau'r eisteddfod, tu ôl i bawb fydd yn cymryd rhan ac yn cystadlu, mae 'na nifer fawr iawn o bobol yn dod at ei gilydd i gydweithio. Yn drefnwyr, yn wirfoddolwyr, yn hyfforddwyr, yn gyfeilyddion, yn adeiladwyr, yn noddwyr… a rhestr hirfaith o bobol eraill, maen nhw'n dod at ei gilydd.

Onid felly mae hi mewn bywyd hefyd? I ddatblygu unrhyw beth o werth ac o safon mae'n rhaid i bobol ymgynnull gyda'i gilydd i drafod, i gynllunio ac i gydweithio.

Ychydig iawn o bethau o werth neu safon sy'n cael eu creu yn eu cyfanrwydd gan unigolyn. Efallai fod un person yn cael gweledigaeth, neu syniad. Ond, i feithrin unrhyw beth da, mae'n rhaid cael cydweithrediad a chasglu pobl at ei gilydd.

Os ydy unigolyn yn aros ar ei ben ei hun a ddim yn rhannu ei syniadau na'i deimladau, ni all gyflawni ei botensial.

Wrth i blant dyfu, mae angen nifer fawr o bobl a dylanwadau arnynt er mwyn iddynt allu dod yn aelodau cyflawn o gymdeithas. Mae angen cartref gyda phobl sy'n eu caru, ysgol gydag athrawon, anogwyr dysgu, glanhawyr, staff ategol, staff y gegin. Ac wedyn, mae angen meddygon a staff meddygol, yn ogystal â ffrindiau a phobl sy'n rhedeg clybiau ayyb. Ydi, mae'n cymryd nifer fawr o bobol i helpu plentyn dyfu.

Does neb yn y byd yn llwyddo ar ei ben ei hun. Mae pawb yn y byd – PAWB – wedi cael help a chymorth gan eraill.

Os yw unrhyw un yn aros ar ei ben ei hun, ddim yn mynd allan a ddim yn trio cymysgu, mae'n hawdd iawn gweld y byd fel bwgan. Gweld pobol eraill, yn enwedig pobol sy'n edrych yn wahanol, neu sydd â diddordebau gwahanol neu ddaliadau gwahanol yn fygythiol. Ond, wrth siarad a chymysgu a chymdeithasu, wrth rannu syniadau a theimladau, fe ddaw unigolion yn rhan o gymdeithas, a'r gymdeithas yn un iach a chydweithredol. Ac os bydd problem neu gamddealltwriaeth, yna mae siarad yn hanfodol.

Pan ddaeth ein Harglwydd Iesu Grist i'n plith ni yma ar y ddaear, roedd ganddo syniadau a neges anhygoel: am gariad,



goddefgarwch, heddwch, tangnefedd a maddeuant. Roedd Iesu yn gweld gwerth ac urddas ym mhob un person. Ar adegau pan nad oedd y bobol hynny'n gweld gwerth ynddynt eu hunain, neu hyd yn oed pan nad oeddent yn hoffi eu hunain, roedd Iesu yn gweld bod pobol angen pobol, bod ar bawb angen cymdeithas.

Roedd o am i bawb glywed a rhannu'r neges anhygoel o wych yma. Ac roedd hyd yn oed Iesu yn gweld na fuasai'n gallu rhannu'r neges yma i bawb yn y byd heb gymorth. Felly, fe aeth Iesu ati i wneud ffrindiau a gofyn yn wreiddiol i ddeuddeg o bobol ei helpu. Pobol gyffredin oeddent; doedd y deuddeg yma ddim yn bobol y buasai'r gymdeithas ar y pryd yn eu gweld fel pobol enwog na phwysig. Pysgotwyr oedd y rhan fwyaf ohonynt, ac oedd gan bob un ohonynt ei rôl neu ei ran i'w chwarae yn rhannu'r neges dda o heddwch, o gariad a maddeuant.

Felly, efallai mai'r neges ydi hyn: ar wahân, rydym yn gallu hel meddyliau drwg amdanom ein hunain ac eraill; gyda'n gilydd, gallwn rannu syniadau a theimladau, a chywiro unrhyw gamddeall. Gyda'n gilydd, gallwn greu rhywbeth sy'n llesol ac sy'n parhau, a gallwn dyfu i fod y fersiwn gorau posib ohonom ni ein hunain.

'Os rhodiwn yn y goleuni, fel y mae ef yn y goleuni, y mae gennym gymundeb â'n gilydd.' (1 Ioan 1:7)

Ond os ydym yn aros yn nhywyllwch arwahanrwydd, ni wnawn ddatblygu. Efallai y byddwn yn meddwl yn wael amdanom ein hunain ac am eraill, ac fe all casineb a gwrthdaro godi eu pen.

Ond efo'n gilydd rydym yn datblygu. Efo'n gilydd, rydym yn cyflawni pethau da, pethau mawr, pethau clodwiw a pethau fydd yn para. Os oedd ein Harglwydd Iesu Grist, Mab Duw, angen ffrindiau a chyfeillion i'w helpu i gyflawni ei dasg, yna heb amheuaeth rydym ninnau angen ein gilydd i ganfod ein llwybr drwy fywyd. Amen.

# Sasiwn Genhadol y De (EBC)





Cynhaliwyd Sasiwn Genhadol y De yng Nghapel Soar, Pontyberem, ddydd Iau, 16 Mai. Cawsom ddathliad bendithiol eto eleni ac roedd y croeso gan chwiorydd Soar a chapeli Gofalaeth y Gwendraeth yn un arbennig iawn. Cafwyd gair o groeso a chyflwyniad i hanes cyfoethog yr ardal gan y Parchedig Emyr Williams yn rhaglen y dydd. Ef hefyd oedd yn gyfrifol am baratoi'r cyflwyniadau a'r emynau ar gyfer y sgrin, a phob un ohonynt yn waith emynwyr sir Gaerfyrddin. Yr organydd yn y ddau gyfarfod oedd Mrs Marina Ambrose.

Llywyddwyd gwasanaeth y prynhawn gan Mrs Elizabeth Jackson, Llywydd Pwyllgor Chwiorydd Henaduriaeth Myrddin. Cymerwyd at y defosiwn gan Mrs Eirwen Jones a Mrs Angela Skym. Croesawyd y Parchedig Richard Brunt, Llywydd y Gymdeithasfa, i ddwyn cyfarchion ar ran y Gymdeithasfa a dymuno'n dda i'r Sasiwn.

Gwahoddwyd Miriam Watling i annerch yng nghyfarfod y prynhawn. Mae Miriam yn gweithio gyda phlant, ieuenctid a theuluoedd yng Ngofalaeth Llundain. Ei thema oedd 'Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd'. Cysylltodd y tri gair â chyfres o luniau'n dangos profiadau diddorol megis mynd ar daith gerdded, colli'r ffordd a throi map y ffordd gywir, a thrwy rannu profiadau pleserus a phrofiadau anodd. Roedd ganddi ddawn i gyfathrebu neges Efengyl Iesu Grist â ni oedolion y prynhawn hwnnw, ac mae'n sicr ei bod yn llwyddo yn ei gwaith gyda phlant ac ieuenctid Llundain. Diolchwyd i Miriam yn gynnes iawn am ei neges a gyflwynwyd mewn modd hwyliog a byrlymus a fydd yn aros yn ein cof am amser maith. Yna, galwyd ar Mrs Catherine Hughes i drosglwyddo siec i Mrs Sarah Morris, tuag at hyrwyddo gwaith y chwiorydd trwy gefnogi'r prosiectau dramor ac yma yng Nghymru. Diolchodd i swyddogion yr Henaduriaethau am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad ac i'r eglwysi am eu haelioni.

Cyflwynodd Mrs Sarah Morris ein thema newydd am y flwyddyn: 'Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd'. Dangosodd i ni'r gyfrol sy'n cynnwys adnoddau i'n helpu yn y gwaith, yn ogystal â'r llyfrau a'r adnoddau yn gysylltiedig â'r cynllun Golud. Dymunwn ddiolch yn ddiffuamt i'r rhai sy'n paratoi adnoddau gwych ar ein cyfer bob blwyddyn

Cyfeiriodd Sarah at ein hastudiaethau Beiblaidd ar Zoom ac anogodd ni i barhau yn ein gwaith dros yr Arglwydd. Offrymwyd y fendith ar ddiwedd y cyfarfod gan y Parchedig Ian Sims.

Gwahoddwyd ni gan Elizabeth Jackson i fwynhau te yn y festri ac fel arfer roedd gwledd o fwyd blasus wedi ei baratoi ar ein cyfer a chyfle i gymdeithasu â ffrindiau, hen a newydd, a chasglu ein llyfrau thema. Roedd ein dyled yn fawr i bob un a fu'n paratoi'r lluniaeth.

Am 5 o'r gloch daethom at ein gilydd ar gyfer cyfarfod yr hwyr, o dan lywyddiaeth Miss Eleri Davies, ac arweiniwyd ni yn y defosiwn gan Mrs Menna Moras a Mrs Ina Tudno Williams.

Roedd yr ail emyn a ddewiswyd yn emyn coffa. Roedd yn gyfle i goffáu cyfeillion a gollwyd yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys Mrs Molly Thomas a fu'n gweithredu fel Trysorydd yn dawel a chydwybodol am nifer o flynyddoedd. Talwyd teyrnged iddi am ei gwaith ac am ei ffydd gadarn yn yr Arglwydd Iesu.

Gwahoddwyd Siân Rees o Gymdeithas y Beibl ymlaen i agor y Gair a rhannu ei thystiolaeth yn seiliedig ar y testun 'Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd'. Roedd yr adnod yn gyfle iddi rannu'r profiadau a gafodd ar ei phererindod ysbrydol a arweiniodd at ei phenodi'n bennaeth Cymdeithas y Beibl yng Nghymru. Mae hefyd yn arweinydd yn ei heglwys ac mae ei harbenigedd mewn cerddoriaeth o gymorth iddi wrth arwain addoliad. Roedd Siân yn tystio i'r *bywyd* sy'n cael ei gynnig gan Iesu yn yr adnod a'r *bywyd* sydd angen ei rannu ag eraill. Mae gwaith Cymdeithas y Beibl yn gyfrwng i rannu newyddion da'r Efengyl i eraill mewn sefyllfaoedd amrywiol ac mewn gwledydd ledled y byd.

Diolchwyd yn ddiffuant i Siân am ei harweiniad a'i thystiolaeth, a dymunwyd yn dda iddi yn ei gwaith. Braint a llawenydd i ni oedd cael ein harwain gan ddwy o'r to iau oedd yn arddangos cymaint o frwdfrydedd a sêl dros rannu neges Efengyl Iesu Grist i eraill.

Ar ddiwedd y cyfarfod cawsom ein croesawu'n gynnes iawn gan Mrs Margaret Jones ar ran Henaduriaeth Morgannwg Llundain i Sasiwn 2025 yng Nghapel Salem, Caerdydd. Edrychwn ymlaen yn fawr at ddiwrnod bendithiol arall.

Ar ôl i'r Llywydd gyflwyno'r diolchiadau, daeth y Sasiwn i ben gyda gweddi a offrymwyd gan y Parchedig Emyr Williams a seiniau'r emyn olaf 'O'r fath gyfaill ydyw'r Iesu' yn aros gyda ni wrth i ni ymadael.

Dymunwn gydnabod gwaith pob un sydd wedi gweithio mor galed er llwyddiant yr Efengyl yn y Sasiwn eleni. Dyna oedd ein braint, a boed clod i'r Arglwydd.

*Eleri Davies – Llywydd*
*Bethan Richards – Ysgrifennydd*





Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru